



AROLWG DEWIS IAITH
ADDYSG
2018/19

Blank

CYNNWYS

<u>Methodoleg</u>	5
<u>Diben yr Arolwg</u>	5
<u>Dulliau a Ffynonellau Data</u>	5
<u>Deilliannau</u>	6
<u>Cyfraddau Ymateb</u>	6
<u>Plant o dan 4 oed</u>	7
<u>Y Ddarpariaeth Bresennol</u>	7
<u>Cylch Chwarae/Meithrin</u>	7
<u>Plant 4 oed a hŷn</u>	9
<u>Y Galw a Nodwyd</u>	10
<u>Cyn Ysgol</u>	10
<u>Oedran Ysgol</u>	10
<u>Arolwg o'r Galw a Nodwyd 2015/16: Niferoedd gwirioneddol Dosbarth Derbyn</u>	11
<u>Pellter Teithio</u>	12
<u>Hyd y Daith</u>	13
<u>Nodweddion darpariaeth yr ysgol</u>	15
<u>Gallu o ran y Gymraeg</u>	16
<u>Cymharu Canlyniadau Arolwg 2015/16</u>	18

Blank

Methodoleg

Diben yr Arolwg

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymroi i ddarparu'r gwasanaeth addysg gorau posibl. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n diwallu anghenion rhieni/cynhalwyr yn y fwrdeistref sirol, rydyn ni'n cynnal arolygon yn rheolaidd. Roedd yr arolwg yma'n canolbwyntio ar ddewis iaith, yn ogystal ag agweddau eraill o ddarpariaeth ysgolion sy'n bwysig i rieni pan fyddan nhw'n dewis ysgol.

Dulliau a Ffynonellau Data

Defnyddion ni'r data geni ar gyfer Rhondda Cynon Taf rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2018 ar gyfer y sampl. Daeth y data yma o Gofrestryddion ac Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf. Mae'r Cofrestryddion a'r Ymddiriedolaeth yn gwasanaethu ardaloedd sydd y tu hwnt i ardal Rhondda Cynon Taf. O ganlyniad i hyn, gwirion ni godau post er mwyn sicrhau ein bod ni ddim yn defnyddio cyfeiriadau sydd y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Wedyn, defnyddion ni'r cyfeiriadau yma i ddarparu 7,296 o gyfeiriadau unigryw. Dyma oedd y sampl ar gyfer yr arolwg. Bydd y plant yma'n rhan o'r cohort a fydd yn ymuno â'r dosbarth derbyn yn ystod blynyddoedd academaidd 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â dilysrwydd y cyfeiriadau yma o ganlyniad i'r amser rhwng genedigaeth y plentyn a chyfnod yr arolwg. Serch hynny, gwnaethon ni gydnabod mai'r ffynhonnell yma fyddai'n rhoi'r data mwyaf cywir i ni am y boblogaeth berthnasol. Cafodd rhai holiaduron eu dychwelyd er bod plentyn ddim wedi'i eni yn ystod y cyfnod. Serch hynny, cafodd unrhyw wybodaeth berthnasol ei chynnwys yn yr arolwg.

Cafodd holiadur ei anfon drwy'r post yn ystod mis Hydref 2018. Roedd llythyr rhagarweiniol gan RCT ynghlwm â'r holiadur, a oedd yn egluro nod yr arolwg. Roedd modd i'r rheiny a ymatebodd ddychwelyd yr holiadur mewn amlen rhabdost neu lenwi'r holiadur ar-lein. Y dyddiad dychwelyd oedd diwedd mis Tachwedd. Derbyniodd y rheiny a oedd ddim wedi ymateb lythyr atgoffa ym mis Ionawr i'w hysgogi i ddychwelyd yr holiadur. Cafodd yr holl holiaduron a ddaeth i law hyd ddechrau mis Mawrth 2019 eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae rhai o'r sylwadau yn yr adroddiad yn berthnasol i fwy nag un categori e.e. mae'r sawl sy'n debygol iawn neu'n debygol o wneud dewis penodol wedi'u cynnwys yn un grŵp, sef 'tebygol' o wneud dewis penodol.

Rydyn ni wedi cynnwys rhai niferoedd bach, yn ogystal â chanrannau, lle y bo hynny'n briodol. Efallai fydd pob cyfanswm ddim yn cyfateb i 100%. Mae hyn am fod niferoedd wedi'u crynhoi neu am fod y rheiny a ymatebodd wedi dewis mwy nag un ateb. Mae'r canrannau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn dangos faint o'r rheiny a ymatebodd a atebodd y cwestiwn penodol yna.

Mae'r holl ddata GIS ar gyfer y rheiny a ymatebodd ac a ddarparodd god post a oedd yn cyd-fynd â chyfeiriad o fewn Rhondda Cynon Taf.

Cyfyngiadau

Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio data'r arolwg gan fod y gyfradd ymateb ddaearyddol yn anwastad. Roedden ni hefyd yn disgwyl y byddai'r rheiny sydd â diddordeb mwy mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o ymateb. Mae hyn am eu bod yn gwneud penderfyniad hyddysg ynglŷn ag addysg eu plentyn yn hytrach na dewis yr ysgol cyfrwng Saesneg agosaf. Roedd cyfran yr oedolion a wnaeth nodi bod o leiaf un oedolyn yn eu cartref yn siarad Cymraeg (34%) yn sylweddol uwch na'r 9% a gafodd ei nodi ar gyfer pobl 16+ yng nghyfrifiad 2011. O ganlyniad i hyn, bydd angen bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae'r canlyniadau yn cynrychioli barn y rheiny a ymatebodd i'r arolwg. Peidiwch â'u defnyddio i gyfleu barn y boblogaeth gyfan.

Deilliannau

Cyfraddau Ymateb

Daeth cyfanswm o 1,142 o ymatebion dilys i law, gyda 333 o ymatebion o ganlyniad i anfon y llythyr dilynol.

Cafodd 246 o holiaduron eu cwblhau ar-lein ac 896 ar bapur.


Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 16%.

Tabl 1 – Cyfradd ymateb fesul ardal

Ardal	Nifer a ddosbarthwyd	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb
Cwm Rhondda	2120	257	12%
Cwm Cynon	1996	249	12%
Taf Elái	3150	637	20%
Cyfanswm	7296	1142	16%

Fel mae Siart 1 yn dangos, roedd cyfradd ymateb llawer uwch yn Nhaf Elái (20%) o'i gymharu â Chwm Cynon a Chwm Rhondda.

Siart 1 – Cyfradd ymateb fesul ardal



Dosbarthu – 7,296 Ymatebion = 1,142

Roedd y cyfraddau ymateb uchaf ar gyfer y rheiny sy'n gofyn am addysg oedran ysgol cyfrwng Cymraeg o ddalgyloedd YGG Garth Olwg (14%) ac YGG Aberdâr (11%).

Roedd y gyfradd ymateb uchaf ar gyfer y rheiny sy'n gofyn am addysg oed ysgol cyfrwng Saesneg o ddalgyloch Ysgol Gynradd Pont-y-clun (6%).

Plant o dan 4 oed

Cafodd y rheiny a ymatebodd eu holi am nifer y plant o dan 4 oed a oedd yn byw gyda nhw adeg yr arolwg. Roedd gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw (78%) un plentyn o dan 4 oed, ac roedd gyda'r 22% arall ddau blentyn dan 4 oed.

Cafodd cyfanswm o 1,373 o blant o dan 4 oed eu nodi gan y rheiny a ymatebodd i'r cwestiwn yma. Roedd 749 o'r plant yma'n 2 oed neu iau.

Y Ddarpariaeth Bresennol

Adeg yr arolwg roedd 125 o Ysgolion yn RhCT:

- 102 Cynradd/lau/Babanod – (80 cyfrwng Saesneg; 13 cyfrwng Gymraeg; 3 Ffrwd Ddeuol; 6 Ysgol Ffydd)
- 16 Uwchradd – (11 cyfrwng Saesneg; 3 cyfrwng Cymraeg; 2 Ysgol Ffydd)
- 1 Canol – (h.y. 3-18 oed)
- 4 Arbennig
- 2 Uned Atgyfeirio Disgyblion


Cylch Chwarae/Meithrin

Roedd plant 69% o'r rheiny a ymatebodd yn mynychu meithrinfa neu gylch chwarae.

- 14% cyfrwng Cymraeg
- 40% cyfrwng Saesneg
- 15% y ddau

Mae Siart 2 yn dangos bod llai o blant yn mynychu meithrinfa neu gylch chwarae cyfrwng Cymraeg yn yng Nghwm Cynon o'i gymharu â Thaf Elái a Chwm Rhondda.

Siart 2 – Oes unrhyw un o'ch plant yn mynd i feithrinfa neu gylch chwarae?




Ymatebion - 1,096

Darpariaeth Feithrin

Llwyddodd dros 93% o'r rheiny a ymatebodd i gael lle mewn lleoliad addysg meithrin ar ôl pen-blwydd eu plentyn yn 3 oed, neu doedd dim angen lle arnyn nhw.

O ran y rheiny a ymatebodd, roedd y ganran a nododd fod dim angen lle mewn meithrinfa arnyn nhw yn is yng Nghwm Cynon o'i chymharu â Thaf Elái a Chwm Rhondda.

Siart 3 – Os oes gyda chi blentyn sy'n 3 oed neu hŷn, a oedd modd i chi gadw lle rhan amser mewn lleoliad addysg meithrin ar gyfer y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed?



Ymatebion – 664

Nododd 7% o'r rheiny a ymatebodd (44 person) eu bod nhw heb gael cynnig lle addas.

O'r rhain, o ran dewis iaith, doedd dim modd i 19 ohonyn nhw gael lle i'w plentyn yn yr ysgol am fod yr ysgol yn llawn; 12 ysgol cyfrwng Saesneg, 7 ysgol cyfrwng Cymraeg.

Os oedd cod post llawn ar gael, defnyddion ni'r data i ganfod yr ysgol ddalgylch. Wrth ymgynghori â'r adran derbyn disgyblion, daeth i'r amlwg mai dim ond mewn 4 o'r 15 o ysgolion a gafodd eu nodi yn yr arolwg yr oedd llefydd meithrin wedi'u gwrthod yn ystod blynyddoedd academiaidd 2017/18 a 2018/19.


Plant 4 oed neu hŷn

O'r rheiny â phlant 4 oed neu hŷn sy'n mynychu'r ysgol eisoes, mae gyda 30% ohonyn nhw blant mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a 4% mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae Siart 4 yn dangos bod canran is o blant yn mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhondda o'i chymharu â Chwm Cynon a Thaf Elái.

Mae canran uwch (6%) o blant yn mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Cynon o'i chymharu â Chwm Rhondda a Thaf Elái.

Siart 4 – Os oes gyda chi blant sy'n byw yn y cyfeiriad yma sy'n 4 oed neu hŷn, i ba fath o ysgol maen nhw'n mynd?




Ymatebion – 450

O ran plant oedran ysgol, mae Siart 5 yn dangos mai anallu rhieni i siarad Cymraeg oedd y rheswm pennaf dros beidio â'u hanfon i ysgol cyfrwng Cymraeg (67%).

Roedd yn well gyda 50% o'r rheiny a ymatebodd anfon eu plant i Ysgol cyfrwng Saesneg (yr ail ateb mwyaf poblogaidd).

O ran yr atebion 'Arall', roedd y rhain yn cynnwys: safon yr addysg yn well yn yr ysgol cyfrwng Saesneg, sgiliau Saesneg gwael, ymdrin â'r broses bontio i addysg bellach a dewis Ysgol Ffydd.

Siart 5 – Os dydy'ch plant o oedran ysgol ddim yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg, nodwch y rhesymau dros hynny



Ymatebion - 369

Y Galw a Nodwyd


Cyn Ysgol

Gofynnwn ni i'r rheiny a ymatebodd am eu dewis iaith o ran darpariaeth **cyn-ysgol**. Nododd 59% eu bod wedi dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg a 33% eu bod wedi dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Roedd 8% yn ansicr.

Mae Siart 6 yn dangos bod y galw isaf am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Rhondda (29%), o'i gymharu â Chwm Cynon a Thaf Elái (y ddau yn 34%).

Siart 6 – Beth fyddai eich dewis iaith ar gyfer darpariaeth CYN OED YSGOL eich plentyn?




Ymatebion - 1,098

Oedran Ysgol

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth fyddai eich dewis iaith ar gyfer addysg **oedran ysgol** eich plentyn', dywedodd 58% y byddai'n well gyda nhw ddarpariaeth Saesneg. Roedd yn well gyda 36% ddarpariaeth Gymraeg ac roedd 6% yn ansicr.

O ran ardaloedd, roedd llai o alw am addysg Gymraeg yng Nghwm Rhondda o'i gymharu ag ardal Taf Elái a Chwm Cynon.

Siart 7 – Beth fyddai eich dewis iaith ar gyfer darpariaeth OEDRAN YSGOL eich plentyn?



Ymatebion - 1,101

Y Galw a Nodwyd**Arolwg 2015/16: Niferoedd gwirioneddol Dosbarth Derbyn ar gyfer 2017/18 – 2018/19**

Roedd y plant o arolwg 2015/16 yn rhan o'r cohort a ymunodd â'r Dosbarth Derbyn yn ystod blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19.

Wrth gymharu'r galw a nodwyd o'r ymatebion i'r arolwg yma â'r niferoedd gwirioneddol a ymunodd â'r Dosbarth Derbyn, mae gwahaniaeth sy'n cyfateb i 368 yn llai o ddisgyblion nag y byddai'r arolwg yn ei awgrymu dros y ddwy flynedd. Bydd angen ystyried hyn wrth ddehongli data.

Mae yna amrywiad mawr yn y niferoedd wrth gymharu'r data yn ôl dalgyloch. Mae gwahaniaeth o 50 neu fwy o ddisgyblion ar gyfer 4 ysgol:

YGG Aberdâr YGG Llwynceilyn YGG Tonyrefail YGG Bodringallt

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn nhabl 2.


Tabl 2 – Arolwg Cymharu Dewis Iaith Addysg 2015/16: Dosbarth Derbyn: Nifer Gwirioneddol y Disgyblion

Ardal	Enw'r Ysgol	Nifer y Disgyblion o'r Arolwg (Amcangyfrif)			Nifer Gwirioneddol 2017/18-2018/19			Gwahaniaeth Nifer Gwirioneddol: Amcangyfrif yr Arolwg		
		2012/13	2013/14	Cyf.	Nifer Gwir. 2017/18	Nifer Gwir. 2018/19	Cyf.	Nifer Gwir. 2012/13	Nifer Gwir. 2014/15	Cyf.
T (Taf Elái)	Ysgol Gynradd Dolau (Cymraeg)	26	27	54	26	19	45	0	-8	-9
T	Heol Y Celyn (Cymraeg)	34	29	63	20	11	31	-14	-18	-32
Cwm Cynon (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (Cymraeg)	21	19	40	22	17	39	1	-2	-1
C	YGG Abercynon	47	50	97	46	30	76	-1	-20	-21
C	YGG Aberdâr	81	90	171	51	56	107	-30	-34	-64
Rh (Cwm Rhondda)	Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt	40	39	79	12	17	29	-28	-22	-50
Rh	YGG Bronllwyn	50	42	93	30	35	65	-20	-7	-28
T	YGG Castellau	34	32	66	37	30	67	3	-2	1
T	YGG Evan James	44	35	79	36	36	72	-8	1	-7
T	YGG Garth Olwg	56	52	108	50	47	97	-6	-5	-11
T	Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant	31	42	72	31	41	72	0	-1	0
Rh	Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn	72	75	147	43	43	86	-29	-32	-61
Rh	Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-forwyn	25	19	44	27	17	44	2	-2	0
T	Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton	45	48	94	42	31	73	-3	-17	-21
T	Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail	59	58	117	27	30	57	-32	-28	-60
Rh	YGG Ynyswen	29	35	64	25	33	58	-4	-2	-6
T	Ysgol Llanhari	25	27	52	29	25	54	4	-2	2
	RhCT	720	720	1440	554	518	1072	-166	-202	-368
	Cyfanswm Cwm Rhondda	216	211	427	137	145	282	-79	-66	-145
	Cyfanswm Cwm Cynon	149	159	309	119	103	222	-30	-56	-87
	Cyfanswm Taf Elái	354	350	704	298	270	568	-56	-80	-136

Taith – Pellter


Pan ofynnwn ni pa mor debygol fyddai'r rheiny a ymatebodd i anfon eu plant i ysgol Gymraeg o fewn 2 filltir o'u cartref, nododd 34% fod hyn yn debygol iawn. Roedd y ganran yma wedi gostwng i 23% os oedd yr ysgol yn bellach na 2 filltir o'u cartref. Mae rhagor o fanylion fesul ardal a thebygolrwydd i'w gweld yn y siartiau isod.

Siart 8: Fyddech chi'n debygol o anfon eich plentyn i ysgol Gymraeg pe bai'r ysgol O FEWN DWY FILLTIR o'ch cartref?



Ymatebion – 1,095

Siart 9: Fyddech chi'n debygol o anfon eich plentyn i ysgol Gymraeg pe bai'r ysgol YN BELLACH NA DWY FILLTIR o'ch cartref?



Ymatebion – 1,112


Amser Teithio

Cynradd

Yr amser teithio mwyaf derbyniol i blant rhwng y cartref ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar wasanaeth bws am ddim oedd rhwng 10 ac 20 munud (44%). Roedd 39% o'r rheiny a ymatebodd yn nodi bod llai na 10 munud yn dderbyniol.

Mae dadansoddiad yn ôl ardal ac amser i'w weld yn Siart 10.

Siart 10 – Yn eich barn chi, pa un o'r canlynol fyddai'n amser teithio derbyniol rhwng y cartref ac ysgol cyfrwng Cymraeg ar wasanaeth bws am ddim?



Ymatebion – 1,028


Pan ofynnwn ni pa mor debygol oedd pobl o anfon eu plant i ysgol Gymraeg sydd o fewn amser teithio derbyniol, nododd 33% fod hyn yn debygol iawn. Dywedodd 17% ei bod hi'n eithaf tebygol neu'n debygol hefyd.

Uwchradd

Yr amser teithio mwyaf derbyniol i blant rhwng y cartref ac ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar wasanaeth bws am ddim oedd rhwng 10 ac 20 munud (38%). Roedd 36% o'r rheiny a ymatebodd yn nodi bod rhwng 20 a 30 munud yn dderbyniol.

Mae dadansoddiad yn ôl ardal ac amser i'w weld yn Siart 11.

Siart 11 – Yn eich barn chi, pa un o'r canlynol fyddai'n amser teithio derbyniol rhwng y cartref ac ysgol cyfrwng Cymraeg ar wasanaeth bws am ddim?



Ymatebion – 997

Nodweddion Darpariaeth yr Ysgol

Gofynnnon ni i'r rheiny a ymatebodd nodi pa mor bwysig yw nodweddion gwahanol wrth ddewis ysgol gynradd i'w plant. Mae rhif 1 yn nodi'r nodwedd bwysicaf a rhif 11 yn nodi'r nodwedd leiaf pwysig.

Gan ddefnyddio'r gyfradd ymateb gymedrig, yn gyffredinol, y tair nodwedd fwyaf pwysig oedd iaith yr ysgol, cyrhaeddiad disgyblion/canlyniadau arholiadau a'r ysgol yn agos at y cartref.

Pa mor hawdd y mae modd cludo'ch plentyn i'r ysgol oedd y lleiaf pwysig.

Mae'r drefn o ran y rhan fwyaf o nodweddion yn aros yn debyg iawn. Serch hynny, o gymharu'r rheiny sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg â'r rheiny sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg, gwelwn fod:

- Iaith yr ysgol yn nodwedd bwysig ar gyfer y rheiny oedd yn dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yr un nodwedd yn y 4ydd safle ar gyfer y rheiny a oedd yn dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg.
- Pellter yr ysgol o'r cartref oedd yn ail o ran blaenoriaeth ar gyfer y rheiny a oedd yn dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg. Roedd yr un nodwedd yn y 3ydd safle ar gyfer y rheiny a oedd yn dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg.


Mae Tabl 3 isod yn dangos cymhariaeth y safleoedd yn ôl dewis iaith.

Tabl 3 – Pwysigrwydd y nodweddion sy'n effeithio ar y broses o ddewis ysgol gynradd

Opsiw'n	Yn gyffredinol	Yn gyffredinol	Safle C	Safle C	Safle S	Safle S
	Safle	Cyffredinol	Safle	Cyffredinol	Safle	Cyffredinol
Iaith yr ysgol	1	4.04	1	2.44	4	4.80
Cyrhaeddiad y Disgyblion / Canlyniadau'r Arholiadau	2	4.36	2	4.78	1	4.13
Pellter yr ysgol o'r cartref	3	4.59	3	5.11	2	4.28
Cyfleusterau'r ysgol	4	4.86	4	5.12	3	4.71
Meintiau dosbarthiadau	5	5.26	5	5.54	5	5.15
Brodyr a chwiorydd yn yr ysgol	6	6.07	6	6.01	6	5.95
Darpariaeth cyn-ysgol ar gael	7	6.51	7	6.62	7	6.48
Prydau lach	8	6.84	8	7.04	8	6.79
Ansawdd adeiladau'r ysgol	9	7.02	9	7.23	9	6.92
Darpariaeth gofal neu weithgareddau ar ôl oriau'r ysgol	10	7.88	11	8.15	10	7.78
Trefniadau hwylus ar gyfer cludo'ch plentyn i'r ysgol	11	8.58	10	7.95	11	9.00


Gallu o ran y Gymraeg

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn 'Oes oedolion yn eich cartref chi sy'n siarad Cymraeg' yn nodi bod o leiaf un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg mewn 34% o'r cartrefi. Roedd hyn yn amrywio o 30% yng Nghwm Rhondda i 36% yn ardal Taf Elái. Mae hyn o'i gymharu â 9% o bobl 16 a hŷn yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011.



Ymatebion - 1,113

Dywedodd 3% mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref, sef 38 o bobl (33 yn Nhaf Elái, 1 yng Nghwm Cynon a 4 yng Nghwm Rhondda). Nododd 3% eu bod nhw'n defnyddio iaith wahanol, sef 36 o bobl (20 yn Nhaf Elái, 8 yng Nghwm Cynon ac 8 yng Nghwm Rhondda).




Ymatebion - 1,114

Roedd yr atebion i'r cwestiwn ynglŷn â phwysigrwydd magu eu plentyn i siarad Cymraeg yn rhugl yn dangos bod 55% o'r farn bod hyn yn 'bwysig'.

Mae rhagor o fanylion fesul ardal i'w gweld yn siart 14.

Siart 14 – Gan ystyried manteision addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg iaith Gymraeg, pa mor bwysig yw hi bod eich plentyn yn rhugl yn y Gymraeg?



Ymatebion - 1,090

Roedd y ganran yn sylweddol uwch (84%) ar gyfer y cartrefi hynny lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg, ac o'r farn ei bod yn bwysig bod eu plentyn yn siarad Cymraeg. Roedd 58% o'r rheiny yn meddwl ei bod yn bwysig iawn.

Cymharu â Chanlyniadau Arolwg 2015/2016

Cyffredinol

- gostyngiad o 2% yn y gyfradd ymateb o 18% i 16%.
- gostyngiad o 7% yn nifer y plant sy'n mynychu meithrinfa neu gylch chwarae ar hyn o bryd.
- prif resymau pam dydy plant ddim yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yr un fath, h.y. anallu rhieni i siarad Cymraeg a dewis ysgolion cyfrwng Saesneg yn lle cyfrwng Cymraeg.

Darpariaeth Cyn Ysgol

- cynnydd o 13% o ran y dewis iaith ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg *
- cynnydd o 5% o ran y dewis iaith ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg *
- gostyngiad o 2% o ran dewis iaith ar gyfer y rheiny a oedd yn ansicr *

*Gan fod yr opsiwn 'cymysg' wedi'i ddileu eleni, does dim modd dod i gasgliadau dibynadwy wrth gymharu'r canlyniadau yma.

Darpariaeth Oed Ysgol

- gostyngiad o 8% o ran y dewis iaith ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg
- cynnydd o 9% o ran y dewis iaith ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
- dim newid o ran y dewis iaith ar gyfer y rheiny a oedd yn ansicr

Teithio

- cynnydd o 11% yn nifer y rheiny a ymatebodd a oedd o'r farn bod amser teithio o dros 10 munud yn dderbyniol.
- gostyngiad o 3% o ran y rheiny sy'n 'debygol' o anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg, os yw o fewn 2 filltir i'r cartref.

Gallu o ran y Gymraeg

- cynnydd o 4% yn nifer yr oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg
- cynnydd o 1% yn y nifer sy'n nodi mai'r Gymraeg yw prif iaith y cartref*
- cynnydd o 7% yn y nifer sy'n nodi mai Saesneg yw prif iaith y cartref*
- cynnydd o 12% o ran y rheiny sydd o'r farn ei bod yn 'bwysig' bod plant yn siarad Cymraeg yn rhugl

*Gan fod yr opsiwn 'y ddau' wedi'i ddileu, does dim modd dod i gasgliadau dibynadwy wrth gymharu canlyniadau prif iaith y cartref.

Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso i chi gysylltu â:

Carfan Gwybodaeth Rheoli

Tŷ Trevithick

Abercynon

Aberpennar

CF45 4UQ

Ffôn: 01443 281157 E-bost: Data.addysg@rctcbc.gov.uk